Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Cymunedol Integredig – Tîm Adnoddau Cymunedol / Canolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar a Thîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty |
| **SWYDD:** | Rheolwr Gwasanaeth y Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar a Thîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR15 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig - CRT |

**DIBEN Y SWYDD:**
Darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth weithredol ar gyfer gwasanaeth gwaith cymdeithasol gwasgaredig sy'n gweithredu mewn system Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb uniongyrchol am y tîm gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty a goruchwyliaeth broffesiynol o'r Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar.

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn sicrhau bod ymyriadau o ansawdd uchel, amserol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu darparu sy'n lleihau dibyniaeth ar ofal hirdymor, yn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty ac yn cynorthwyo rhyddhau amserol o'r ysbyty. Un o elfennau allweddol y rôl hon yw ysgogi perfformiad gwell wrth leihau oedi ar draws llwybrau gofal.

Bydd deiliad y swydd yn darparu arweinyddiaeth gwaith cymdeithasol arbenigol i'r Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar amlddisgyblaethol, gan gynorthwyo brysbennu effeithiol, penderfyniadau proffesiynol, a darparu ymyriadau tymor byr, sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwelliant parhaus gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, deddfwriaeth genedlaethol, a strategaethau comisiynu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Arwain, rheoli a datblygu'r gwasanaeth yn barhaus yn unol ag egwyddorion Cymru Iachach, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, agenda Trawsnewid ac Integreiddio Pen-y-bont ar Ogwr, Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gomisiynu; cyflawni, drwy ddulliau arloesol, integredig, sy'n canolbwyntio ar y person a deilliannau.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf, cydweithredol ar draws lleoliadau iechyd acíwt a chymunedol, partneriaid y sector gwirfoddol a

gwasanaethau ehangach y Cyngor i sicrhau gofal cydgysylltiedig, cost effeithiol sy'n canolbwyntio ar y person.

- Arwain ar fonitro, dadansoddi, a gwella perfformiad gwasanaeth gan gynnwys DPA sy'n ymwneud ag oedi Llwybrau Gofal, rhyddhau o'r ysbyty, amseroedd ymateb, a chanlyniadau defnyddwyr.
- Gweithredu fframweithiau rheoli perfformiad cadarn, gan ddefnyddio data a thystiolaeth i ysgogi trawsnewid gwasanaethau, rheoli risg, a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel. Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i aelodau'r tîm a fydd yn cynnwys ffeithiau/sefyllfaoedd cymhleth.
- Hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus, dysgu ac arloesi, drwy arferion sicrhau ansawdd cadarn — gan sicrhau bod gwasanaethau yn ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac arfer gorau.
- Darparu arweinyddiaeth broffesiynol a goruchwyliaeth weithredol o'r Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar, gan sicrhau bod atgyfeiriadau cymhleth yn cael eu brysbennu'n effeithiol ac yr ymatebir iddynt yn gymesur ac yn gyflym.
- Cymryd cyfrifoldeb am gyllidebau dirprwyedig a dyrannu adnoddau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau'r defnydd effeithiol o adnoddau yn unol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a blaenoriaethu comisiynu.
- Rheoli, cynorthwyo a datblygu Rheolwyr Tîm a staff drwy oruchwyliaeth o ansawdd uchel, ymarfer myfyriol, cynllunio'r gweithlu, a hyrwyddo datblygu proffesiynol.
- Cymryd rôl arweiniol, i sicrhau bod systemau yn eu lle ac yn gweithio’n effeithiol ac, yn unol â deddfwriaeth ddiogelu ar gyfer oedolion mewn perygl, a gweithdrefnau eraill i gynorthwyo pobl agored i niwed, ar draws asiantaethau. Ymchwilio i gwynion cam 1 o dan y weithdrefn gwynion statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan sicrhau bod dysgu yn cael ei gofnodi a bod gwelliannau i wasanaethau yn cael eu gweithredu.
- Darparu cyngor a goruchwyliaeth arbenigol ar waith achos cymhleth a sefyllfaoedd risg uchel, sicrhau bod safonau proffesiynol a model ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau'r Cyngor yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth.
  Cynrychioli'r gwasanaeth mewn fforymau strategol, cyfarfodydd amlasiantaethol, gan ddylanwadu at atebion a llwybrau integredig. Meithrin hygrededd ac ymddiriedaeth ar draws sectorau gan sicrhau bod gwaith cymdeithasol wedi'i gynrychioli ac yn llywio'r agenda ehangach ac yn ysgogi integreiddio a gwelliannau gwasanaethau.
- Monitro perfformiad ariannol, gan nodi risgiau a chyfleoedd, a sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion. Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn cael eu dilyn a chyfrannu at gynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Rheolwr Gwasanaeth y Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar a Thîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer ymarfer proffesiynol a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus, addysg a hyfforddiant. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso gyda phrofiad sylweddol o weithio gydag unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr mewn lleoliadau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol.<br>• Profiad sylweddol o reoli timau gwaith cymdeithasol neu dimau amlddisgyblaethol mewn gofal cymdeithasol i oedolion.<br>• Dealltwriaeth gadarn o bolisi, canllawiau statudol a'r gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso a sut y maent yn effeithio ar oedolion o ran darparu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.<br>• Dealltwriaeth gadarn o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol cysylltiedig.<br>• Profiad o reoli adnoddau a rheoli perfformiad.<br>• Dealltwriaeth o ddyletswydd cydraddoldeb gofalwyr cyrff cyhoeddus.<br>• Dealltwriaeth a phrofiad o ddatblygu gwasanaethau, rheoli newid a/neu reoli prosiectau.<br>• Dealltwriaeth gadarn o lywodraethu, rheoliadau a chadw | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol.<br><br>• Ymwybyddiaeth o agendâu cenedlaethol gan gynnwys Cymru Iachach, integreiddio ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar y person a chanlyniadau.<br>• Gwybodaeth am bolisïau diogelu a chyfrifoldebau proffesiynol.<br>• Profiad o ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr a rhanddeiliaid wrth ddarparu gwasanaethau a chynllunio.<br>• Dealltwriaeth o fframweithiau rheoli perfformiad, dangosyddion allweddol gwasanaethau oedolion a sicrhau ansawdd. | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau cryf mewn amgylcheddau cymhleth, cyflym.<br>• Gallu arwain timau amlasiantaethol a dylanwadu arnynt.<br>• Sgiliau rheoli pobl effeithiol, a'r gallu i arwain, cynghori a chynorthwyo eraill mewn amgylchedd sy'n newid.<br>• Gallu defnyddio data rheoli perfformiad i lywio penderfyniadau strategol a gweithredol.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau proffesiynol cadarn sy'n cynnwys rheoli cymhleth a risg uchel.<br>• Ymrwymiad i gydgynhyrchu, cynhwysiant a hyrwyddo annibyniaeth.<br>• Gallu gwneud dyfarniadau proffesiynol cadarn gan gynnwys materion risg uchel am unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.<br>• Gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br><br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu rheoli a datrys gwrthdaro mewn ffordd gadarnhaol.<br>• Gallu gweithredu'n gorfforaethol, gan gynrychioli'r gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd mewn amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol. | Ydy<br><br>Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu rheoli cyllidebau ac adnoddau'n effeithiol.<br><br>• Sgiliau cyfathrebu, negodi a meithrin perthnasoedd rhagorol.<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da.<br>• Gallu dod o hyd i atebion arloesol a chreadigol.<br>• Sgiliau TG da.<br>• Arweinyddiaeth sy'n cael ei harwain gan werthoedd ac yn fodel rôl ar gyfer safonau proffesiynol.<br>• Brwdfrydig, yn canolbwyntio ar atebion ac yn wydn.<br>• Gallu teithio'n annibynnol o fewn ardal ddaearyddol.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br><br>Ydy<br><br><br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu diffinio, monitro a chyflawni targedau a chanlyniadau gan sicrhau bod dulliau adborth ac adrodd hynod effeithiol ar waith.<br>• Gallu rhoi cyfarwyddyd ar draws sawl safle.<br>• Gallu rheoli perfformiad cyflogeion yn effeithiol.<br>• Gallu gweithio'n rhagweithiol ac yn hyblyg. Gweithio nosweithiau a phenwythnosau mewn amgylchiadau eithriadol.<br>• Disgwylir bod gennych gerbyd modur i'w ddefnyddio ar deithiau swyddogol. Caiff eich treuliau milltiredd eu had-dalu'n seiliedig ar y gyfradd y cytunir arni'n lleol.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br><br><br><br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |